| Rhif | Rheswn dros y bid | Person Cyfrifol | Amlinelliad o'r Mater | Amlinelliad o'r risg o beidio ymateb | Manylion bid a ddaeth i law | | Argymhelliad | Symiau Argymhellir | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Parhaol (£) | Unwaith ac am byth (£) | | Parhaol (£) | Unwaith ac am byth (£) |
| **Adran Adnoddau Dynol** | | | | | | | | | |
| Adn01 | Penodi ail ymgynghorydd Iechyd Galwedigaethol | Geraint Owen | Cymeradwywyd cais gan y Cyngor i sefydlu swydd 'Ymgynghorydd Iechyd Galwedigaethol' yn 2008/9. O ganlyniad i'r penodiad, terfynwyd y cytundeb hanesyddol i ddarparu gwasanaeth gyda'r Ymddiriedolaeth Iechyd a gwireddwyd arbediad ariannol sylweddol yn sgil hynny. Profwyd ansawdd gwasanaeth llawer gwell a daethpwyd i gytundeb tair blynedd oddi ar y 01.07.09 gyda meddyg galwedigaethol arbenigol i ddarparu cyngor ar achosion cymhleth. Cyflogwyd 'Cymhorthydd Iechyd Galwedigaethol' dros dro ers Gorffennaf 2009 gyda'r arian trosiannol o ddwy flynedd a ganiatawyd gan y Cyngor. Mae'r Cymhorthydd yn cyflawni profion iechyd sylfaenol gwirfoddol i staff y Cyngor mewn ymdrech i fod yn rhagweithiol ac osgoi absenoldeb salwch trwy adnabod symptomau ynghynt. | Mae'r diffyg gweithredu yng nghyswllt gofynion statudol monitro iechyd carfannau o'r gweithlu yn risg amlwg.<br>Yn sgil llwyddiant y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol ar ei newydd wedd, mae yma risg hefyd o fethu cyflawni'r gwaith yn amserol ac i'r ansawdd bresennol yn wyneb y ffaith bod cynnydd sylweddol yn yr ymgynghoriadau a'r camau rhagweithiol a gymerir ar y cyd hefo rheolwyr.<br>Mae sicrhau cynnydd yn y capasiti yn allweddol er mwyn gyrru'r drefn rheoli absenoldebau a gwireddu arbedion sylweddol. Byddwn yn rhagweld arbediad o £90,000 yn y flwyddyn gyntaf yn seiliedig ar ragdybiaeth y byddai o leiaf 25% o'r dyddiau salwch gaiff eu harbed yn cael eu gwireddu yn y gwasanaethau "rheng-flaen" ac ymhle y byddai'n angenrheidiol cyflogi staff wrth-gefn dros gyfnod salwch deilydd y swydd. | 41,060 | | Cefnogi'r bid, mae'r Swydd yn cyfrannu at effeithlonrwydd drwy leihau absenoldebau, bydd yr arbedion ariannol yn cyfrannu at darged prosiect effeithlonrwydd y Cyngor. | 41,060 | |
| **Cyfanswm Adran Adnoddau Dynol** | | | | | **41,060** | **0** | | **41,060** | **0** |
| | | | | | | | | | |
| **Adran Gofal Cwsmer** | | | | | | | | | |
| GofC05 | Cyflwyno cynllun trwyddedu meddalwedd Microsoft | Huw Ynyr | Mae oddeutu 2,500 o staff y Cyngor yn gwneud defnydd o gyfrifiaduron i gwrdd ag anghenion eu gwaith, a phob un yn ddibynnol ar feddalwedd Microsoft. Mae'r cylch o uwchraddio pecynnau meddalwedd Microsoft yn mynd yn fyrrach ac yn fyrrach, sy'n golygu y bydd nifer ehangach o fersiynau yn cael eu rhyddhau yn y deng mlynedd nesaf o'i gymharu â'r deng mlynedd diwethaf. Byddai'r cynllun tanysgrifio yn ein galluogi i drwyddedu'r fersiynau diweddaraf. Byddai'r gost sy'n gysylltiedig â thanysgrifio yn llawer is na'r gost o brynu pob fersiwn newydd o'r meddalwedd. | Byddwn yn gorfod wynebu pegynnau o gostau i uwchraddio'n meddalwedd Microsoft pan nad oes cefnogaeth bellach i hen fersiynau. Mae problemau yn codi cyn i'r gefnogaeth ddirwyn i ben, gyda chyflenwyr meddalwedd eraill yn rhoi'r gorau i gefnogi meddalwedd ar y fersiynau hyn o'r gyfres Microsoft. Bydd yn rhaid i fersiynau cyfredol Windows XP ac Office 2003 gael eu huwchraddio erbyn 2014 ar yr hwyraf, gan na fydd cefnogaeth iddynt, mae cefnogaeth prif-lif wedi dod i ben yn barod ar y rhain, a byddai hyn ar gost unwaith ac am byth o £851,000. | 205,000 | | Mae angen asesiad llawn o'r dewisiadau meddalwedd gan geisio datrusiad oddifewn i gyllidebau cyfredol o bosibl drwy cydweithio. I'w adrodd yn 2011 | | |
| GofC06 | Cyflwyno cynllun cefnogaeth TG y tu allan i oriau safonol. Rhan o gynlluniau parhad gwasanaeth. | Huw Ynyr | Mae dibyniaeth staff y Cyngor a'n dinasyddion ar wasanaeth TGCh yn ymestyn yn bellach nag oriau swyddfa. Yn achlysurol mae problem yn digwydd sy'n arwain at doriad yn y gwasanaeth. Gall cyfnod y toriad fod yn benwythnos cyfan neu, ar y gwaethaf y cyfnod Nadolig i gyd. Golyga hyn bod bygythiad at barhad gwasanaethau craidd megis y Wefan allanol, a systemau Adrannol pwysig. Byddai cynllun sy'n cynnig gwasanaeth cefnogi oddi allan i oriau safonol yn gwarchod parhad gwasanaeth drwy alw ar arbenigedd o'r timau Gweinyddwyr, Rhwydwaith a'r Ddesg Gymorth i gywiro'r diffyg. | Dim cefnogaeth oddi allan i oriau gwaith safonol. Byddai unrhyw broblem TGCh yn parhau tan y diwrnod gwaith nesaf, a all roi'r Cyngor mewn sefle bregus, yn enwedig gyda'r posibilrwydd o golli sustemau craidd pwysig. | 35,464 | | Cefnogi'r datblygiad gan nodi bod y gwasanaeth i arinnu unrhyw ddatblygiadau pellach i'r dyfodol. | 35,460 | |
| **Cyfanswm Adran Gofal Cwsmer** | | | | | **240,464** | **0** | | **35,460** | **0** |
| | | | | | | | | | |
| **Adran Democratiaeth a Chyfreithiol** | | | | | | | | | |
| DaCh07 | Lwfans cadeiryddion pwyllgorau ardal | Iolo Roberts | Diffyg yn y gyllideb oherwydd penderfyniad y Cyngor i dalu lwfansau i gadeiryddion pwyllgorau ardal. | | 13,638 | | Cyngor eisioes wedi penderfynnu y lwfans. | 7,000 | |
| **Cyfanswm Adran Democratiaeth a** | | | | | **13,638** | **0** | | **7,000** | **0** |
| | | | | | | | | | |
| **Adran Rheoleiddio** | | | | | | | | | |
| Rhe01 | Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Mon – Capasiti'r Tim CDLl - gwneud un swydd Uwch Swyddog Polisi Cynllunio yn barhaol. | Nia Haf Davies | Gwneir y cais yma er mwyn cael y sicrwydd angenrheidiol y bydd capasiti presennol yr Uned Polisi Cynllunio ar y cyd yn cael ei gynnal. Anelir i gyflogi swydd Uwch Swyddog Polisi Cynllunio ar sail barhaol yn hytrach nag ar sail cytundeb dros dro, sef y trefniant presennol. | Byddai methiant i gyllido'r bid yma yn golygu methiant i brofi bod adnoddau digonol ar gyfer cefnogi'r gwaith ar gyfer darparu'r CDLl ar y cyd. Goblygiadau hyn fyddai methiant i gael y sel bendith angenrheidiol gan y Cynulliad i'r cam statudol cyntaf yn y broses o baratoi'r CDLl, sef cytuno i'r Cytundeb Cyflawni. | 39,100 | | Y gwasanaeth i flaenoriaethu adnoddau o'r gronfa sydd eisioes wedi ddarparu. | | |
| Rhe02 | Swyddog Iechyd Amgylchedd Bwyd i weithredu argymhellion 3 a 4 o'r Ymchwiliad Cyhoeddus i'r Achosion E .coli 0157 yn Ne Cymru 2005 | Ffion W Hewson | Cyfeirir at adroddiad yr Ymchwiliad Cyhoeddus i'r Achosion E .coli yn Ne Cymru ym mis Medi 2005 . Mae CLILC yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i sicrhau gweithrediad ar argymhellion yr Adroddiad. | Risg o Achos mawr o E.coli 0157 yng Ngwynedd yn cynyddu.<br>Dirywiad yn safon hylendid sefydliadau bwyd yng Ngwynedd o'i gymharu â gweddill Siroedd Cymru. | 41,960 | | Adolygiad Strategol i'w gwblhau ac i ariannu unrhyw ofynion yn ynol a blaenoriaethau'r gwasanaeth. | | |
| Rhe04 | Posibilrwydd y bydd y grant sy'n cylido'r Tim Gorfodi Iechyd Anifeiliaid yn dod i ben neu'n trosglwyddo i'r setliad | John Reynolds | Mae gan y Cyngor ddyletswydd i orfodi gofynion Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981, sef y ddeddfwriawth sy'n gosod fframwaith i warchod anifeiliaid rhag afiechydon heintus. Mae dyletswydd hefyd i sicrhau cydymffufiad a'r rheolau. | .Risg o fethu cyflawni gofynion statudol | 135,230 | | Disgwyl cadarnhad ynglyn a lefel y grant. | | |
| **Cyfanswm Adran Rheoleiddio** | | | | | **216,290** | **0** | | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | |
| **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | | | | | | | | |
| PaB03 | Strategaeth Gwastraff | Steffan Jones | Mae'r Strategaeth Wastraff yn rhagweld y bydd yn rhaid cyflawni nifer o brosiectau os am gwrdd a thargedau gwaredu gwastraff. Bydd y gwaith ychwanegol yn parhau yn 2011/12 gan gynnwys newid ein trefniadau casglu i sicrhau y gellir casglu mwy o ddefnydd i'w ail gylchu a'i gompostio; sefydlu Canolfan Adennil Deunyddiau ym Meirionnydd a Chanolfan Ail gylchu yn Nolgellau. Bydd yna gostau unwaith ac am byth tra byddwn yn mewnosod trefniadau casglu newydd cyn medru gweithredu trefniadau neillog ar y gwastraff gweddilliol wnaiff i bob pwrpas dalu am y rhan fwyaf o'r trefniadau casglu newydd. | Os na fyddwn yn ymaten drwy gyflawni'r strategaeth - fel y dangoswyd pan gymeradwyodd y cyngor y Strategaeth, yn y pen draw mae yna wir berygl y bydd y gost terfuynol i'r Cyngor erbyn 2025 tua £4m yn fwy na fydd o gyflawni'r strategaeth honno. Felly mae'r risg ariannol i'r Cyngor yn sylweddol os na fyddwn yn cyflawni heb son am y risg i ddelwedd y Cyngor. | 107,880 | 340,000 | | 107,880 | 340,000 |
| **Cyfanswm Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | | | | **107,880** | **340,000** | | **107,880** | **340,000** |

| Rhif | Rheswn dros y bid | Person Cyfrifol | Amlinelliad o'r Mater | Amlinelliad o'r risg o beidio ymateb | Manylion bid a ddaeth i law | | Argymhelliad | Symiau Argymhellir | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Parhaol (£) | Unwaith ac am byth (£) | | Parhaol (£) | Unwaith ac am byth (£) |
| **Adran Strategol a Gwella** | | | | | | | | | |
| SaG01 | Ariannu swydd er mwyn cefnogi trefniadau Rheolaeth Rhaglen yn y meysydd Pobl Bregus, Iechyd, Gofal a Lles ( gan gynnwys ymateb i'r agenda Ataliol Iechyd ) - Grant Iechyd yn dod i ben | Sharon Warnes | Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i baratoi Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles sydd yn cael ei baratoi mewn dwy ran - yn ymateb i ofynion cydweithio gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwalader ar sail lleol o gwmpas darparu gwasanaethau ar y cyd ac yn ail, arwain ar yr agenda ymyrraeth gynnar a iechyd ataliol. Mae'r gwath yma yn golygu hefyd sicrhau trefniadau cadarn ar gyfer cyd gynllunio a chomisiynu gwasanaethau mewn partneriaeth. Mae'r rolau yma yn cael eu hariannu drwy grant y Cynulliad sydd yn dod i ben Mawrth 2011 . Mae'n ariannu swydd cydlynnu hanner amser, Rheolaeth Rhaglen hanner amser a hwylusydd llawn amser. | Heb y swyddogaeth yma byddwn yn methu cefnogi rheolaeth rhaglen yn y maes, ac felly yn methu sicrhau rheolaeth strategol o'r buddion sydd angen eu gwireddu nac ychwaith yn gallu adnabod a chytuno gwelliannau pellach ynghyd a'r agenda ymyraeth gynnar a gwella iechyd. | 100,000 | | Argymhellir ariannu un swydd parhaol yn unig, sef y swyddogaeth rheolaeth rhaglen pobl bregus a'r agenda gwella iechyd a un swydd ar sail 2 flynedd i ddarparu cefnogaeth i'r agenda. | 57,000 | 80,000 |
| SaG02 | Estyniad i gytundeb dros dro y Swyddog Cydraddoldeb Anabledd | Sharon Warnes | Mae'r Cyngor eisoes wedi penodi Swyddog Cydraddoldeb Anabledd i weithio gyda gwasanaethau er mwyn sicrau bod y Cyngor yn cyrraedd ei ddyletswyddau o dan y Ddeddfwriaeth Anabledd. Mae'r cytundeb yn dod i ben ym Mai 2011 Ers penodi'r swyddog mae gofynion y Ddeddf Anabledd wedi ymestyn gyda gofynion ehangach wedi eu sefydlu ym maes cyflogaeth, gweithredu ac yn bennaf y gofyn am ffurfioli trefniadau ymgysylltu ac ymgynghori gyda defnyddwyr. | Byddai risg o dynnu nol oddiwrth rhaglen sydd wedi dechrau rhoi barn defnyddwyr penodol a'r gymuned yng nghanol ein gwaith ac o adborth gwasanaethau byddent hwythau yn gweld colled o beidio cael arbenigedd ehangach o fewn y Cyngor i roi barn er ddatblygu gwasanaethau fyddai'n cydfynd gyda gofynion grwpiau cleient bregus iawn. | | 27,000 | Argymhellir ariannu am 12 mis gan gyfarwyddo y gwasanaeth i drafod datrusiad gyda Gofal Cwsmer wrth ddatblygu trefniadau ymgysylltu gyda defnyddwyr. | | 27,000 |
| **Cyfanswm Adran Strategol a Gwella** | | | | | **100,000** | **27,000** | | **57,000** | **107,000** |
| **Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | | | | | | |
| TGC01 | Penodi swyddog ychwanegol dros dro i ddelio gyda chynnydd mewn Cyflwyniadau Digartrefedd | Susan Griffith | Mae cyflwyniadau digartrefedd wedi cynyddu 37% yn ystod y tri mis diwethaf (Mehefin, Gorffennaf, Awst) o'i gymharu a'r un cyfnod llynedd. Mae'n debygol y bydd y duedd yma yn parhau oherwydd yr hinsawdd economaidd. Yn ychwanegol, bydd y newidiadau arfaethedig i'r gyfundrefn budd-dal tai o Ebrill 2011 yn effeithio ar fforddiadwyedd y sector preifat ac mae'n debygol y bydd nifer yn colli eiddo oherwydd hyn ac yn dod yn ddigartref. Os bydd y duedd yn parhau gyda chynnydd o 37% mae'n bosib y bydd oddeutu 248 o geisiadau ychwanegol yn 2011/12 | 1.Gorwariant sylweddol ar gyllideb lletya pobl ddigartref<br>2.Perfformiad ar ddangosyddion cenedlaethol yn gwaethygu.<br>Penderfyniadau ddim yn cael eu gwneud o fewn 33 diwrnod gwaith<br>3. Oedi yn y gallu i symud pobl ymlaen o lety gwely a brecwast i eiddo mwy addas a llai costus. | | 24,920 | Argymhellir ariannu am flwyddyn bydd yn galluogi'r gwasanaeth i ymateb i'r pwysau ac asesu cyfraniad y tim dewisiadau tai. | | 24,920 |
| TGC07 | Effaith newid lefel budd-dal tai ar wariant ar lety dros dro ar gyfer pobl digartref | Susan Griffith | Ers Ebrill 2010 mae newid mawr wedi bod yn y trefniadau cyllido ar gyfer darparu llety dros dro i'r digartref. Mae'r fformiwla newydd yn seiliedig ar raddfeydd Lwfans Tai Lleol ym mhob Ardal Marchnad Rhenti Eang. Mae'r newid wedi effeithio lefel incwm budd dal tai sydd yn cael ei dderbyn ar gyfer pobl mewn llety eiddo les sector breifat a llety gwely a brecwast sydd yn cael ei ddefnyddio gan yr Uned Digartrefedd. | Gorwariant sylweddol ar gyllideb lletya pobl digartref | 48,350 | | Cefnogi'r bid, yn anorfod oherwydd newid yn y drefn ariannu. | 47,340 | |
| TGC15 | Cronfa Atal Digartrefedd | Susan Griffith | Dim ond £5,000 sydd wedi ei glustnodi ar gyfer y gronfa atal digartrefedd. Yn gynyddol mae'r uned yn talu blaendal rhent o oddeutu £500 er mwyn sicrhau eiddo yn y sector breifat i osgoi rhoi pobl mewn llety gwely a brecwast. Mae hyn wedi profi i fod yn gost effetihiol gan fod cost pythefnos mewn gwely a brecwast yn o leiaf £560.<br>Yn osystal i dalu blaendal rhent byddai'r uned yn gallu cynorthwyo mewn ffyrdd eraill , er engraifft - Taliadau ol-ddyled rhent, neu taliadau 'bond'<br>Dim ond deg person mae £5,000 yn gallu eu cynorthwyo ac felly byddai £25,000 ychwanegol yn ein galluogi i gynorthwyo 50 arall. | Gorwariant sylweddol ar gyllideb lletya pobl digartref, a'r gwasanaeth yn dirywio. | 25,000 | | Cefnogi'r bid drwy sefydlu cronfa. Mae potensial i'r cynllun leihau costau a chynnig gwell gwasanaeth i'r digartref. | | 50,000 |
| TGC03 | Ariannu swydd Rheolwr Comisiynu gan fod grant yn dod i ben | Meilys Heulfryn Smith | Caiff swydd y Rheolwr Comisiynu yng Ngwasanaeth Busnes yr Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol ei hariannu, ar hyn o bryd, drwy'r Grant Cydweithio. Mae'r grant yn dod i ben ar ddiwedd 2010/11. | Peidio cwrdd a gofynion statudol y Canllawiau Comisiynu.<br>Beirniadaeth gan Arolygwyr sydd wedi nodi 'Comisiynu' fel y prif flaenoriaeth o ran mesydd sydd dal angen eu gwella yn dilyn yr Adolygiad ar y Cyd.<br>Methiant i gyflawni cynlluniau arbedion sylweddol. | 55,820 | | Swydd allweddol i sicrhau trefniadau comisiynu addas er mwyn adnabod a gwireddu canlyniadau priodol i ddefnyddwyr. Yn amodol ar gael Strategaeth Comisiynnu hyfyw. | 55,820 | |
| TGC06 | Cwrdd a cynnydd mewn costau a phenodi un swydd barhaol (Demograffi Gwasanaeth Ol-ofal) | Aled Gibbard | Daeth y Ddeddf Gadael Gofal 2000 i rym yn Hydref 2001.<br>Nid oedd y ddeddf yn ôl weithredol ac felly dim ond y plant hynny a oedd yn gymwys o'r dyddiad hwnnw ymlaen a fyddai yn gymwys o dan y ddeddf newydd hon.<br>Golyga hyn bod y bobl ifanc hynny a oedd eisoes wedi gadael gofal cyn Hydref 2001 yn derbyn gwasanaeth o dan Deddf Plant 1989.<br>Effaith cyflwyniad y ddeddf felly oedd mai bychan oedd y nifer oedd yn gymwys o dan y Ddeddf newydd ar ei gyflwyno, ond y byddai'r nifer yn cronni dros y blynyddoedd i ddilyn. | Parhau a gorwariant sylweddol.<br>Gweithredu'n anghyfreithlon.<br>Pecynnau gofal nad ydynt yn cyfarch anghenion unigolion ac felly'n eu gadael mewn sefyllfaoedd bregus. | 205,640 | | Mae gorwariant o £164,000 gyda data cymharol yn dangos mai Gwynedd yw'r 5ed uchaf o ran gwariant drwy Gymru a'r 2il uchaf o ran y teulu. Mae adolygiad ar waith i asesu sut i leihau costau llety a cefnogaeth. O ran y bid am swyddog ychwanegol mae lefel staffio Gwynedd yn is na Cynghorau'r Teulu a Cymru. Cefnogwyd cais llynedd am swydd dros dro ac argymhellir cefnogaeth parhaol. | 205,640 | |
| TGC08 | Bidiau Cyfnod Trosiannol 18+ | Ann Lloyd Jones a Glyn Tomos | Maqe'r bid yn ymwneud ag achosion pobl ifanc ac anabledd dysgu sydd ar fin cyrraedd 18oed ac angen trosglwyddo i wasanaeth oedolion er mwyn iddynt barhau i dderbyn gofal a chefnogaeth. Ar hyn o bryd gwasanaeth plant sydd'n cyllido eu gofal tan eu bod yn 18 oed. Pan mae'r amser yn dod i'w trosglwyddo i wasanaeth oedolion nid yw'r cyllid sydd yn cael ei wario arnynt yn trosglwyddo i'r gwasanaeth oedolion. Oherwydd hyn mae gofyn i'r gwasanaeth oedolion adnabod cyllid ar eu cyfer. Ystyrir na ellir ariannu yr achosion hyn o fewn y gyllideb presennol. | Y risg o roi pwysau ychwanegol sylweddol ar gyllidebau cyfredol gwasanaeth oedolion ag anabledd dysgu a gadael y gwasanaeth yn agored i gael ei herio yn gyfreithiol. | 176,150 | | Gwaraint anorfod i gyflawni pecynnau gofal. Argymhellir sefydlu cronfa i'w ryddhau fesul achos yn ddibynnol ar y gyllideb a faint o gydariannu achosion unigol fydd gyda Iechyd ac Addysg. | 176,150 | |

| Rhif | Rheswn dros y bid | Person Cyfrifol | Amlinelliad o'r Mater | Amlinelliad o'r risg o beidio ymateb | Manylion bid a ddaeth i law | | Argymhelliad | Symiau Argymhellir | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Parhaol (£) | Unwaith ac am byth (£) | | Parhaol (£) | Unwaith ac am byth (£) |
| TGC09 | Rheolwr Gwasanaeth a gweinyddwr – Gwasanaethau Arbenigol Plant (grant yn dod i ben) | Marian Hughes | Swyddi hyn wedi eu hariannu trwy'r grant cydweithio ers eu sefydlu. Y grant bellach yn dod i ben a'r arian yn cael ei drosglwyddo i ddiben arall gan y Cynulliad yn Ebrill 2011.<br>Mae'r gwasanaeth yn datblygu o fod yn wasanaeth sydd wedi ei gyd-leoli i fod yn wasanaeth integreiddiedig gyda'r cyngor fel yr asiantaeth sy'n gyfrifol am ei gynnal (host agency).Yn dilyn cytundeb rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Gwynedd bydd y Rheolwr Gwasanaeth yn rheoli'r holl wasanaeth gan gynnwys nyrsio, seicoleg clinigol, gwaith cymdeithasol, gwasanaethau cefnogol, swyddog cyswllt addysg, gweinyddiaeth a chydlynydd cofrestr plant anabl. Y Tim gweinyddol ar hyn o bryd yn cael ei ariannu gan y Cyngor (1 llawn amser a 3 rhan amser) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (1 llawn amser a 2 rhan amser). | Y prif risgiau o beidio ymateb i'r cais uchod yw methu a pharhau â'r cytundeb ffurfiol gyda'r Bwrdd Iechyd a colli ffocws ar waith gyda phlant anabl a phlant sy'n wael o fewn y sir am nifer o resymau. | 74,090 | | Swydd rheolaethol allweddol sydd wedi ariannu gan grant yn hanesyddol. Mae'r Adran yn y broses o gwblhau adolygiad o drefniadau ac adnoddau gweinyddol. Argymhellir bod y gwasanaeth yn datrus / ariannu yr elfen weinyddol. | 52,540 | |
| TGC10 | Penodi Therapydd Galwedigaethol rhan amser ar gyfer plant anabl – asesu a lleihau risg i ddefnyddwyr gwasanaeth a darparwyr. | Iona Griffith | Trefniadau i asesu risg a'r angen am gyfarpar ac i hyfforddi gofalwyr a staff ar y defnydd ohonno yn annigonnol | o Niwed i blentyn yn sgil gweithwyr cefnogol yn symud plentyn neu'n ymdrin ag offer symyd a thrin yn anghwir<br>o Niwed i aelod o staff yn sgil yr uchod<br>o Staff i ffwrdd o'r gwaith am gyfnodau hir<br>o Erlyniaeth gan rieni / gofalwyr a chais am iawndal sylweddol<br>o Erlyniaeth gan aelodau staff a chais am iawndal sylweddol | 32,620 | | Yr adran i flaenoriaethu adnoddau i gyfarch y risgiau i staff y Cyngor drwy sicrhau hyfforddiant priodol. | | |
| TGC13 | Cynnydd mewn costau darparu Gwasanaeth Cefnogol ar gyfer plant anabl a phlant sy'n wael. | Iona Griffith | Yr angen am wasanaeth cefnogol i gynnal plant o fewn eu teuluoedd wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf yn sgil nifer y cyfeiriadau i'r gwasanaeth a difrifoldeb sefyllfeydd rhai teuluoedd. | Mae methu darparu gwasanaeth cefnogol i blant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd yn mynd i arwain i risg gwirioneddol | 50,000 | | Argymhellir cefnogi'r bid sydd yn ymateb i gynnydd yn y cyfeiriadau a sydd yn ceisio lleihau costau darpariaeth uwch drwy gynnal plant o fewn eu teuluoedd. | 50,000 | |
| TGC12 | Cynnydd mewn costau maethu asiant all-sirol a cefnogi gwasanaeth Demograffi Plant Mewn Gofal | Aled Gibbard | Dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd cynnydd yn y nifer o blant sy'n derbyn gofal yn genedlaethol ac yn lleol.<br>Gosodwyd trefn lleol i dderbyn ceisiadau gofal gan y timau gwaith cymdeithasol er mwyn ceisio cysoni'r ceisiadau a sicrhau bod y meini prawf yn cael eu cyrraedd.<br>Mae twf yn y nifer o geisiadau ac yn ogystal mae nifer uchel o achosion llys, sy'n golygu bod pwysau mawr yn cael ei roi ar adnoddau i ofalu am y plant yma. Nid yw'r patrwm yng Ngwynedd yn wahanol i'r patrwm cenedlaethol. | Anodd iawn yw gwrthod ceisiadau i dderbyn plant i ofal. Byddai hynny'n golygu gadael plant bregus gartref pan mae niwed arwyddocaol a risg eisoes wedi ei adnabod. Byddai hyn yn gadael y Cyngor yn agored i feirniadaeth lem.<br>Oni chynyddir y gyllideb i gefnogi strwythur gofalwyr y gwasanaeth ni ellir gweithredu o fewn y fframwaith statudol ac yn sgil hynny daw beirniadaeth gan reoleiddwyr allanol gan fod y gwasanaeth yn derbyn archwiliadau yn flynyddol. Mae rheoleiddwyr eisoes yn cydnabod y cynnydd a wnaed gan y gwasanaeth wrth gynyddu'r nifer o rieni maeth ond wedi gwneud sylwadau am y sustemau cefnogi. | 295,000 | | Rhaid cyfarch y lefel gorwariant ar gyllid maethu drwy asiant a lleoliadau all sirol yn bennaf. | 295,000 | |
| TGC14 | Delio a diffyg yn y gyllideb - Ariannu Ailsefydlu Cyffuriau ac Alcohol (Rehabilitation Provision) | Gwen Carrington | Mae'r cyfrifoldeb o gynnig cyfleon i fynychu ailsefydliad preswyl i gleientiaid cyffuriau ac alcohol yn eistedd gyda Gwasanaethau Cymdeithasol. Dros gyfnod o flynyddoedd, ac oherwydd nifer o resymau mae'r arian sydd wedi ei glustnodi ar gyfer hyn wedi ei drosglwyddo ac yn awr yn eistedd yn cronfa Uned Diogelwch Cymunedol, sydd yn gyfrifol am strategaeth camddefnyddio sylweddau. Mae'r cyfrifoldeb o asesu cleientiaid yn eistedd oddi fewn Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau yn y Bwrdd Iechyd. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i weinyddu'r arian a'r cytundebau gyda unedau preswyl. | Gwasanaethau Cymdeithasol yn methu yn eu dyletswydd i gynnig ailsefydliad preswyl i drigolion Gwynedd. Unigolion bregus gyda problemau camddefnyddio cyffuriau ac/neu alcohol yn methu a cael mynediad i'r gwasanaeth mae nhw ei angen | 24,000 | | Trosglwyddo'r cyllid i Gwasanaethau cymdeithasol a cefnogi'r bid fydd yn galluogi cynnal y gwasanaeth cyfredol | 24,000 | |
| TGC19 | Grant capio ffioedd - "First Steps" | Gwen Carrington | Mae'r llywodraeth y Cynulliad yn ystyried pasio deddfwriaeth fyddai yn effeithio ar asesiadau ariannol clientau sydd yn derbyn gwasanaeth di-breswyl ac yn cyfyngu'r swm all y Cyngor ei godi i £50 yr wythnos. Nid yw'r manylion yn derfynol eto ond, ar sail trafodaethau anffurfiol, mae'n debyg y bydd y golled incwm unai yn £855,200 neu £834,200 | Gwariant anorfod i ariannu y newid. | 853,980 | | Cefnogi'r bid sydd i ariannu goblygiadau y newid polisi. | 853,980 | |
| **Cyfanswm Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | | **1,840,650** | **24,920** | | **1,760,470** | **74,920** |
| | | | | | | | | | |
| **Adran Addysg** | | | | | | | | | |
| Add03 | Hyrwyddo Ymddygiad Da (Webster Stratton) oherwydd fod grant yn dod i ben ynghynt na'r disgwyl | Orina Pritchard | Cynnal rhaglen cynnal ymddygiad da (Webster Stratton) sy'n sicrhau gwelliant ym medrusrwydd cymdeithasol ac emosiynol plant. Gwella cynhwysiad cymdeithasol. Darparu cyfleon datblygiad proffesiynol staff. Annog rhieni i gefnogi'r rhaglenni yn y cartref. Gwaith partneriaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrifysgol Bangor. | Diffyg mewnbwn i ddisgyblion â phroblemau ymddygiad dwys. Diffyg mewn cydweithio â rhieni. Cynnydd yn nifer gwaharddiadau penodol a parhaol sector gynradd. Canrannau presenoldeb yn disgyn. Effaith negyddol ar ganlyniadau addysgol grwpiau bregus o blant. | 90,000 | | Grant Cynulliad wedi tocio - yr Adran i ystyried ffynnonellau grant eraill, neu ystyried fel rhan o'r broses Cronfa datblygol C3B. | | |
| Add10 | Datgloi Potensial Ysgolion Arbennig - 'Ymestyn Allan Effeithiol' | Orina Pritchard | Tebygolrwydd bydd y grant sydd wedi bod yn cyllido'r prosiect uchod yn dod i ben ddiwedd Gorffennaf 2011. Yn unol â chynllun Datgloi Potensial Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae'r AALl wedi llunio cynllun ar y cyd â'r ysgolion arbennig i rannu arbenigeddau'r gweithlu. Defnyddir y grant i gyflogi athrawes a chymorthyddion ac mae'r AALL yn gweithio mewn partneriaeth â'r ysgolion arbennig i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael trwy'r rhaglen 'Ymestyn allan Effeithiol' a'r arferion da sy'n bodoli. | Os na ellir sicrhau cynaladwyaeth i'r prosiect yma, rhagwelir bydd:<br>- Risg o golli 3 swydd (1 Athrawes & 1.6 Cymhorthydd AAA).<br>- Lleihad yn y mewnbwn a roddir i'r ysgolion prif lif gan staff yr ysgolion arbennig.<br>- Lleihad o ran rhannu sgiliau arbenigol staff.<br>- Lleihad o ran y cydweithio rhwng ysgolion prif-ffrwd ac ysgolion arbennig y Sir. | 90,737 | | Byddai darparu £50,000 yn galluogi parhad y gwaith sydd yn ceisio sicrhau defnydd o adnoddau arbennigol i gefnogi ysgolion prif ffrwd gynnwys mwy o ddisgyblion AAA am 2011-12. | | 50,000 |
| **Cyfanswm Adran Addysg** | | | | | **180,737** | **0** | | **0** | **50,000** |

| Rhif | Rheswn dros y bid | Person Cyfrifol | Amlinelliad o'r Mater | Amlinelliad o'r risg o beidio ymateb | Manylion bid a ddaeth i law | | Argymhelliad | Symiau Argymhellir | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Parhaol (£) | Unwaith ac am byth (£) | | Parhaol (£) | Unwaith ac am byth (£) |
| | | | | | | | | | |
| **Adran Economi a Chymuned** | | | | | | | | | |
| ECh06 | Gronfa Cydariannu Cynlluniau yn Targedu Nawdd Ewropeaidd 2010-2013 | Dylan Griffiths | Sicrhau arian cyfatebol REFENIW a CHYFALAF digonol i ddatblygu a chydariannu cynlluniau mae'r Cyngor yn arwain, neu yn bartner ynddynt, sy'n targedu arian o gronfeydd Ewropeaidd.<br>Dyrannwyd £1,589,000 o gyllid refeniw/cyfalaf gan y Cyngor i'r pwrpas ond mae'r galw disgwyliedig ar gyfer adnoddau yn fwy na'r ddarpariaeth.<br>Daw'r diffyg o ganlyniad i lwyddiant y Cyngor i ddatblygu / cefnogi datblygiad nifer cynyddol o gynlluniau blaenoriaeth ac o ganlyniad i brinder arian cyfatebol ar gael gan sefydliadau cyhoeddus eraill megis Llywodraeth Cynulliad Cymru.<br>Ceir dadansoddiad o'r ymrwymiadau presennol a disgwyliedig o'r Gronfa yn Atodiad 1. | Methiant i sicrhau buddsoddiad sylweddol yng Ngwynedd.<br>Colli ein cyfle olaf i roi hwb sylweddol i'r economi leol gan ddefnyddio arian Ewrop<br>Methu cyflawni amcanion strategol y Cyngor | | 500,000 | Cefnogi'r bid drwy ychwanegu'r swm i'r gronfa ar gyfer cynlluniau sy'n uchafu effaith buddsoddiad Ewropeaidd | | 500,000 |
| **Cyfanswm Adran Economi a Chymuned** | | | | | **0** | **500,000** | | **0** | **500,000** |
| | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | | | | | **2,740,719** | **891,920** | | **2,008,870** | **1,071,920** |

| Rhif | Rheswn dros y bid | Person Cyfrifol | Amlinelliad o'r Mater | Amlinelliad o'r risg o beidio ymateb | Manylion bid a ddaeth i law | | Argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Parhaol (£) | Unwaith ac am byth (£) | |
| **Adran Democratiaeth a Chyfreithiol** | | | | | | | |
| DaCh03 | Swydd cyfreithiwr dros dro i gael ei gyllido yn barhaol | Iwan Evans | Bid am un swydd cyfreithiwr yn cael ei chyflwyno ar y cyd hefo Gwasanaethau Cymdeithasol – parhad o swydd dros dro sydd wedi ei sefydlu eleni | | 30,000 | | Dim yn fater anorfod ond mae potensial am well effeithlonwyrdd. Argymhelliad cyflwyno cais buddsoddi i arbed. |
| **Cyfanswm Adran Democratiaeth a Chyfreithiol** | | | | | **30,000** | **0** | |
| **Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | | | | |
| TGC02 | Ariannu swydd Swyddog Teleofal (Grant yn dod i ben) | Ann Lloyd Jones a Glyn Tomos | Mae cyfnod ariannu y swydd hon yn dod i ben diwedd Mawrth 2011. Ar hyn o bryd Grant Annibyniaeth a Lles sydd yn talu am y swydd hon ac ni fydd y grant yn parhau o Ebrill 1af 2011 ymlaen. Mae'r swydd wedi bod mewn bodolaeth ers Ebrill 2009, ac yn gyfrifol am hyrwyddo'r defnydd o teleofal i oedolion ag anabledd dysgu. | Y risg o beidio ymateb yw y bydd her yn fwy o gyflwyno technoleg newydd fel arf o sicrhau pecynnau cost effeithiol heb leihau y risg i oedolion bregus. | 37,250 | | Nid yw yn ddatblygiad anorfod ond mae potensial i sicrhau pecynnau gofal fwy cost effeithiol. Achos busnes buddsoddi i arbed i'w ddatblygu |
| **Cyfanswm Adran Tai a Gwasanaethau** | | | | | **37,250** | **0** | |
| **Adran Addysg** | | | | | | | |
| Add01 | Canolfan Iaith Uwchradd Gwynedd - Cyllido swydd athrawes | Bethan E Roberts | Drwy gyllido 2 athro/athrawes yn y Ganolfan Iaith, sicrheir fod y Sir yn gallu parhau i ymateb i'r galw gan ysgolion am ddarpariaeth ar gyfer disgyblion di-Gymraeg sy'n gynyddol cyrraedd yr ysgolion uwchradd yng Ngwynedd ar wahanol adegau o'r flwyddyn. Mae'r ddarpariaeth yma'n allweddol er mwyn cefnogi ysgolion i weithredu Polisi Iaith yr Awdurdod ac i osod sylfaen dda yn y Gymraeg i fewnfudwyr i'w galluogi i ymdoddi i'r gymdeithas ddwyieithog a chyfranogi'n llawn o brofiadau addysg ddwyieithog. | | 45,000 | | Bid datblygol wedi ei gyfeirio at Gronfa Datblygol y Cynllun 3 Blynedd |
| Add02 | Cyflogi 2 athro a 4 cymhorthydd a mewnbwn arbenigol er mwyn sefydlu Unedau ASD ynghlwm i ysgolion arbennig y Sir | Orina Pritchard | Nifer cynyddol o ddisgyblion rhwng 5 – 19 oed yn cael diagnosis o Awtistiaeth.<br>Diffyg darpariaeth lleol ar gyfer ymateb i anghenion priodol.<br>Sicrhau darpariaeth o fewn y Sir fydd yn lleihau'r gofyn am asesiadau allanol. (11 – 19 oed).<br>Anghenion staffio – 2 x athrawon â chymhwyser ASD.<br>4 cymhorthydd Lefel 3<br>Mewnbwn arbenigol ABA<br>Adnoddau perthnasol | Nifer cynyddol o ddisgyblion Awtistig yn cael eu lleoli'n all sirol ar gyfer diwallu eu hanghenion addysg. Cynnydd sylweddol yng nghyllideb all sirol AAA, oddeutu £275k y pen | 210,000 | | Bid datblygol wedi ei gyfeirio at Gronfa Datblygol y Cynllun 3 Blynedd |
| Add07 | Cymorth i ysgol fedru darparu cwriciwlwm dwyieithog | Owen Owens | Mae'r cais hwn am arian ychwanegol i alluogi un ysgol, Ysgol Friars i gyfarfod â'r disgwyliad tymor hir arni a nodwyd yng Nghynllun Addysg Gymraeg Gwynedd, sef darparu rhannau o'u cwricwlwm yn ddwyieithog. | Ni fydd Ysgol Friars yn gallu datblygu eu cwricwlwm i gynnig mwy o ddarpariaeth ddwyieithog, a thrwy hynny bydd y Sir yn methu cwrdd ag un o flaenoriaethau Cynllun Addysg Gymraeg Gwynedd. | 96,515 | | Bid datblygol wedi ei gyfeirio at Gronfa Datblygol y Cynllun 3 Blynedd |
| **Cyfanswm Adran Addysg** | | | | | **351,515** | **0** | |
| **Adran Economi a Chymuned** | | | | | | | |
| ECh03 | Achrediadau anffurfiol i ddatblygu sgiliau pobl ifanc | Nia Morris | Mae'r bid wedi ei chyflwyno fel rhan o Brosiect Cynllun 3 Blynedd y Bwrdd Rhaglen Plant a Phobl Ifanc hefyd. Mae cyfanswm cost y Cynllun hwnnw (Trawsnewid Gwasaaneth Ieuenctid) yn £165k y flwyddyn am 3 blynedd. | Methu a chyflawni Rhaglen Wella 5 Mlynedd y Gwasanaeth Ieuenctid.<br>Llai o ddarpariaeth ar gyfer cymhwyso pobl ifanc y tu allan i'r ysgol | | 128,788 | Bid datblygol wedi ei gyfeirio at Gronfa Datblygol y Cynllun 3 Blynedd |
| ECh04 | Cronfa Bwrlwm Gwynedd (Cronfa Ddigwyddiadau) | Roland Evans | Ar hyn o'r bryd nid oes cronfa benodol yn bodoli er mwyn cefnogi digwyddiadau sylweddol. | Trwy beidio sefydlu cronfa berthnasol ar gyfer cefnogi digwyddiadau, bydd Gwynedd yn colli cyfle gwirioneddol i ddatblygu'r Sir fel lleoliad delfrydol ar gyfer digwyddiadau. Mae hyn yn mynd yn groes i ddyheadau sydd wedi eu mabwysiadu o fewn y Cynllun 3 Blynedd. | | 200,000 | Bid datblygol wedi ei gyfeirio at Gronfa Datblygol y Cynllun 3 Blynedd |
| **Cyfanswm Adran Economi a Chymuned** | | | | | **0** | **328,788** | |
| **CYFANSWM** | | | | | **418,765** | **328,788** | |

| Rhif | Rheswn dros y bid | Person Cyfrifol | Amlinelliad o'r Mater | Amlinelliad o'r risg o beidio ymateb | Manylion bid a ddaeth i Parhaol (£) | Unwaith ac am byth (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| **Adran Cyllid** | | | | | | |
| Cyll01 | Pwrcasu peiriant 'pressure seal' newydd ar gyfer plygu a selio slipiau cyflog | Anthony V Jones | Peiriant 'pressure seal' cyfredol yn 7 blwyddyn oed ac mae'r model bellach yn un na ellir ei adfer, ac yn anodd cael rhannau i'w thrwsio pan yn torri i lawr.Cyn hir ni fydd y cwmni cynnal a chadw yn gallu cefnogi'r peiriant . | Un ai gorfod cyflogi staff ychwanegol i gyflawni'r gwaith gyda llaw, ar gost refeniw o tua £25,000 y flwyddyn, neu fethu ac anfon slipiau cyflog i holl weithwyr y cyngor yn unol â'r gofyn statudol. | | 12,000 |
| **Cyfanswm Adran Cyllid** | | | | | **0** | **12,000** |
| | | | | | | |
| **Adran Gofal Cwsmer** | | | | | | |
| GofC04 | Gwella lefel staffio Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth | Hywel James | Datganodd Asesiad 2010 CyMAL ar y Gwasanaeth Llyfrgell bryderon ynglŷn â'r lefel staffio annigonol. Bydd safonau statudol diwygiedig 2011 ymlaen yn nodi lefel staffio isafrif . Byddai gwella'r lefel staffio yn ateb y pryderon hyn ond hefyd yn cynorthwyo'r Gwasanaeth i gyfrannu at amcanion gofal cwsmer y Cyngor. Cododd achosion difrifol o fygythiadau i staff llyfrgell yn 2008 a 2009 ac mae staff yn adrodd yn rheolaidd eu pryder am ymddygiad rhai pobl ifanc ac oedolion. Bu trosiant staff llyfrgell yn llawer uwch yn 2009/10 yn rhannol gan fod staff yn gadael yn dilyn profiadau achosodd pryder. | Gyda nifer uchel o staff yn gweithio yn unigol mae risg i Ddiogelwch staff a hefyd i ddiogelwch offer y Cyngor. Mae peryg y bydd safon y gwasanaeth yn cael ei erydu gan fod staff unigol yn goruchwylio ymddygiad defnyddwyr yn hytrach na chanolbwyntio ar gynnig gwasanaeth .Bydd y Gwasanaeth yn methu unwaith eto i ddangos cynnydd tuag at y safon staffio isafrif yn seiliedig ar gyfartaledd staffio Cymru. Bydd risg hefyd i fethu cyrraedd safonau llyfrgell eraill megis y nifer o ymweliadau ac ymateb i cheisiadau. | 59,187 | |
| **Cyfanswm Adran Gofal Cwsmer** | | | | | **59,187** | **0** |
| | | | | | | |
| **Adran Democratiaeth a Chyfreithiol** | | | | | | |
| DaCh06 | Cost hanner swydd i weinyddu cyd-bwyllgor Cynllunio | Rhiannedd Williams | Pe byddai'r cyd-bwyllgor Cynllunio rhwng Gwynedd ac Ynys Mon yn cael ei sefydlu bydd angen adnodd i'w weinyddu. Mae cryn ansicrwydd am y cyfeiriad ar hyn o bryd ond amcanir y byddai angen oddeutu ½ swydd rhwng popeth | | 17,000 | |
| DaCh08 | Lwfansau cadeiryddion | Iolo Roberts | Cais am ddiwygio'r cynllun lwfansau er mwyn dileu anghysondebau. Er mwyn cysoni dylid ychwanegu lwfans i gadeirydd pwyllgor pensiynau, cadeirydd pwyllgor apel cyflogaeth ac o bosib is-gadeirydd trwyddedu a chynyddu lwfansau cadeiryddion archwilio a thrwyddedu. Noder fod hyn yn ddewisol i'r Cyngor yn 2011/12. | | 16,000 | |
| **Cyfanswm Adran Democratiaeth a Chyfreithiol** | | | | | **33,000** | **0** |
| | | | | | | |
| **Adran Rheoleiddio** | | | | | | |
| Rhe03 | Swydd newydd - Swyddog Iechyd Amgylchedd Llygredd i alluogi cynnal lefel presennol y gwasanaeth. | Bleddyn Davies | Y mae tîm rheoli llygredd wedi ei leoli o fewn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn yr Adran Rheoleiddio.<br><br>Y mae'r tîm ar hyn o bryd yn cynnwys 8 aelod o staff FTE (Cyfwerth Llawn Amser). Y mae 1.0 o'r 8.0 aelod o staff FTE yn gyflogedig ar sail dros dro yn unig hyd at y 31/3/2011.<br><br>Rhoddwyd y swydd dros dro mewn lle yng Ngorffennaf 2006 er mwyn i alluogi'r tîm allu ymdopi a'r llwyth gwaith cynyddol a wynebir a lle mae disgwyliadau yn uchel oherwydd gofyniadau statudol. | Methu a darparu gwasanaeth sylfaenol rheoli llygredd ac iechyd cyhoeddus i drigolion, ymwelwyr a busnesau yng Ngwynedd gyda dirywiad yn safon yr amgylchedd ac iechyd cyhoeddus yng Ngwynedd.<br>Cynnydd yn y lefel o lygredd yng Ngwynedd a lleihad mewn safon iechyd cyhoeddus. | 41,960 | |
| Rhe05 | Swyddog Cludiant Cymunedol | Dafydd W Williams | Mae angen swyddog arbenigol er mwyn gweithredu'r Strategaeth Cludiant Cymunedol sydd wedi cael ei fabwysiadu gan y Cyngor. Nid oes adnoddau ar gael ar gyfer y swydd hon ar hyn o bryd. Mae arweiniad cenedlaethol yn rhoi mwy o bwyslais ar gludiant cymunedol fel rhan o ddarpariaeth cludiant integreiddiedig a gwelir y ddarpariaeth fel modd o wella effeithlonrwydd y rhwydwaith bresennol. Mae'r mater wedi ei adnabod fel prosiect blaenoriaeth yng nghynllun 3 blynedd y Cyngor. | Ni fydd unrhyw welliant yn y maes Cludiant Cymunedol heb greu capasiti i hwyluso a hyrwyddo'r ddarpariaeth. Ni fydd yn bosib i'r cyfleon integreiddio gael eu gwireddu heb y capasiti ychwanegol hwn. Byddai hyn yn cynyddu'r risg na fydd yn bosib sicrhau unrhyw welliant i'r gwasanaeth cyhoeddus ac na fydd yn bosibl i gwblhau'r rhan bwysig hon o'r strategaeth berthnasol | 21,750 | |
| **Cyfanswm Adran Rheoleiddio** | | | | | **63,710** | **0** |

| Rhif | Rheswn dros y bid | Person Cyfrifol | Amlinelliad o'r Mater | Amlinelliad o'r risg o beidio ymateb | Manylion bid a ddaeth i: Parhaol (£) | Manylion bid a ddaeth i: Unwaith ac am byth (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| **Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | | | |
| TGC11 | Ariannu swyddi Tim Cynghori ag Asesu, grant yn dod i ben | Ann Lloyd Jones | Sefydlwyd y Tîm Cynghori ac Asesu yn 2008 yn dilyn yr adolygiad ar y cyd er mwyn cael pwynt canolog i dderbyn cyfeiriadau Gwasanaeth Oedolion [ac eithrio Iechyd Meddwl]. Mae 2 o'r 4 swydd yn cael eu ariannu drwy grant cydweithio sydd yn dod i ben | • Diffyg cysondeb wrth ymateb i geisiadau Gwasanethau Cymdeithasol ar draws y sir ac ar draws wasanaethau.<br>• Diffyg o fewn y gwasanaeth i gyfarch ymateb i gyfeiriadau i'r gwasanaeth yn amserol a phriodol. | 74,000 | |
| **Cyfanswm Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | | **74,000** | **0** |
| | | | | | | |
| **Adran Darparu a Hamdden** | | | | | | |
| DaH04 | Cynnal ymchwiliad diogelwch offer nwy geginau | Dafydd Aled Williams | Mae angen codi maint y cyllid ar gyfer cynnal a chadw offer y gegin gan fod yr angen statudol i ymchwilio yn flynyddol gan Beiriannydd cymwysedig i ddiogelwch offer nwy geginau.<br>Mae'r cyllid yma wedi gorwario yn flynyddol achos yr ymchwiliadau diogelwch nwy. | Costau cynnal a chadw yn cynyddu heb dadansoddiad cywir o'r gwariant ar materion statudol (Landlord expenses) a cynnal a chadw offer.<br>Cyllid yn parhau i gorwario yn cynyddu cost y gwasanaeth arlwyo Cynradd. Rhaid ymateb i'r risg yma drwy sucrhau bod y cleient, sef yr Adran Addysg yn fodln bod y darparwyr yn cyflawni yn unol a'r gofynion diogelwch gyda unrhyw gynnydd mewn cost yn fater i'r contract arlwyo Ysgolion. | 24,000 | |
| **Cyfanswm Adran Darparu a Hamdden** | | | | | **24,000** | **0** |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM** | | | | | **253,897** | **12,000** |

| Rhif | Rheswn dros y bid | Person Cyfrifol | Amlinelliad o'r Mater | Amlinelliad o'r risg o beidio ymateb | Swm y Bid | Argymhelliad | Swm a Argymhellir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran Adnoddau Dynol** | | | | | | | |
| Adn02 | Rhaglen ddiogelwch Trafnidiaeth Ysgolion - Ysgol y Garnedd, Bangor | Dafydd Wyn Williams | Cyflawni cynllun i leihau'r risg trafnidiaeth uchel iawn o fewn ysgol gynradd ag yr ardal gerllaw'r ysgol sef lon Penrhosgarnedd. Mae hwn yn lôn prysur iawn ym Mangor. | Risg bresennol yn sylweddol oherwydd niferoedd o blant a thrafnidiaeth ar y safle. | 175,000 | Argymhellir caniatau'r cais hwn gan bod yr achos wedi derbyn asesiad risg coch yn yr asesiad cychwynol ac mai dyma'r flaenoriaeth uchaf o ran y rhaglen o gynlluniau diogelwch trafnidiaeth ysgolion | 175,000 |
| Adn03 | Rhaglen Dreigl o welliannau diogelwch tu mewn i safleoedd ysgolion | Dafydd Wyn Williams | Rhaglen i ddiwallu angnehion rhybudd cyffredinol AGID yn 2004 i wella sefyllfa traffig mewn ysgolion. | Risg bresennol yn sylweddol oherwydd niferoedd o blant a thrafnidiaeth | 75,000 | Argymhellir caniatau ar gyfer un o'r 3 ysgol yr oedd y bid yn cyfeirio atynt - Dim ond un o'r ysgolion hynny (Corris) oedd ar lefel risg coch yn yr asesiad gwreiddiol | 25,000 |
| **Cyfanswm Adran Adnoddau Dynol** | | | | | **250,000** | | **200,000** |
| | | | | | | | |
| **Adran Gofal Cwsmer** | | | | | | | |
| GofC02 | EDRMS | Helen Parry | Prynu a gweithredu system wybodaeth gorfforaethol a fyddai'n storio a rheoli mynediad i holl ddogfennau electronig anstrwythuredig y Cyngor. Byddai'n cael ei defnyddio gan bob aelod o staff sydd ar hyn o bryd yn defnyddio cyfrifiadur. Bwriedir felly yn y lle cyntaf iddi roi trefn ar y trefniadau ffeilio ad-hoc, anhrefnus presennol trwy ddod â chysondeb a rheolaeth ar ein gwybodaeth electronig.<br>Y bwriad yw mai hon fydd un o brif systemau y Cyngor yn y pen-draw trwy yn raddol symud i weithio'n electronig a lleihau'r defnydd o bapur. Dylai bod unrhyw systemau newydd yn gorfod bod â'r gallu i integreiddio gyda'r EDRMS.<br>Rhaid pwysleisio na nid prosiect TG mohono ond prosiect rheoli newid a fydd yn chwarae rhan allweddol yn y rhaglen rheoli newid gorfforaethol. | • Mae gwendidau o ran rheolaeth a diogelwch yn golygu y bydd yn rhaid rhoi mwy o adnoddau i weinyddu trefniadau presennol.<br>• Costau o brynu a chynnal systemau adrannau unigol oni cheir un system gorfforaethol<br>• Pwysau ar isadeiledd TG yn anghynaladwy<br>• Byddai lleihad yn effeithlonrwydd wrth i staff dreulio mwy a mwy o amser yn chwilio am a rheoli gwybodaeth yn hytrach na chanolbwyntio ar y cwsmer.<br>• Methu gwella prosesau gwaith o fewn fframwaith gorfforaethol gyffredin | 1,354,750 | Yr achos busnes wedi ystyried a'i dderbyn gan y BRA gyda'r buddsoddiad wedi ei rannu dros 5 mlynedd . Buddsoddiad i sicrhau arbedion. Argymhellir ei fod yn cael ei gymeradwyo ond gan rannu'r buddsoddiad dros y 5 mlynedd nesaf. | 473,200 |
| GofC03 | Cyflwyno meddalwedd marciau gwarchod | Helen Parry | Mae gofynion diogelwch data fel y mae'n cael ei bennu gan Government Connect - Code of Connection yn rhoi gorchymyn i ddodi marciau gwarchod ar wybodaeth sy'n cael ei yrru ar e-bost. | Mae archwiliad gan Government Connect o'n mesurau ar gyfer cydweithredu â'r Code of Connection ar 21ain Hydref, 2010. Mae gwybodaeth bod Awdurdodau eraill sydd heb gydymffurfio'n llawn i gymal 23.1 wedi cael gorchymyn i roi gweithdrefn mewn lle oddi fewn y 12 mis nesaf i gwrdd â'r gofyn, neu wynebu methu'r archwiliad nesaf. | 30,000 | Argymhellir caniatau'r bid oherwyd y risg o fethu a chydymffurfio a gofynion y Code of Connection | 30,000 |
| **Cyfanswm Adran Gofal Cwsmer** | | | | | **1,384,750** | | **503,200** |
| | | | | | | | |
| **Adran Democratiaeth a Chyfreithiol** | | | | | | | |
| DaCh05 | Peiriannau Argraffdy | Rhiannedd Williams | Posibilrwydd y bydd angen uwchraddio peiriannau'r argraffdy. Ni ellir bod yn sicr hyd y bydd adolygiad o waith yr argraffdy wedi ei gwblhau ddiwedd y mis ond y rhagolygon ydi fod angen buddsoddiad. Mae cronfa adnewyddu ar gael yn barod felly cais am unrhyw ddiffyg ac ar gyfer un flwyddyn yn unig fyddai hwn | | 350,000 | Gwrthod y bid - Unrhyw fuddsoddiad i'r gymeradwyo ar sail achos busnes gan yr adran - posib gwneud cais Buddsoddi i Arbed | 0 |
| **Cyfanswm Adran Democratiaeth a Chyfreithiol** | | | | | **350,000** | | **0** |
| | | | | | | | |
| **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | | | | | | |
| PaB01 | Atal Dirywiad Strwythurol Ffordd y Promenad, Abermaw | Ieuan G Thomas | Atal dirywiad i Ffordd Promenad, Abermaw a achosir gan effaith y mor a'r tonnau yn gwanhau sylfaen strwythur y promenad. | Dirywiad pellach yng nghyflwr yr ased a cynnydd mewn cwynion a ceisiadau am iawndal yn erbyn y Cyngor. | 330,000 | Gwrthod y bid - adnoddau cyfalaf wedi gostwng yn sylweddol | 0 |
| **Cyfanswm Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | | | | **330,000** | | **0** |

| Rhif | Rheswn dros y bid | Person Cyfrifol | Amlinelliad o'r Mater | Amlinelliad o'r risg o beidio ymateb | Swm y Bid | Argymhelliad | Swm a Argymhellir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| **Adran Addysg** | | | | | | | |
| Add06 | Cynllun Cydweithio Rhanbarthol - Rhesymoli darpariaeth ONE | Owen Owens | Bydd yr arian yn caniatau i Wynedd fod yn rhan o gynllun i resymoli ONE ar draws Awdurdodau'r Gogledd. Ar hyn o bryd mae pob Awdurdod yn talu am fodiwlau ONE fesul Awdurdod unigol, yn talu am uwchraddio modiwlau fesul Awdurdod, ac yn talu ffioedd cynnal a chadw blynyddol modiwlau fesul Awdurdod. Daw arbedion y cynllun hwn drwy ystyried Awdurdodau'r Gogledd fel un Awdurdod mawr o ran pwrcasu modiwl, uwchraddio modiwl, a chynnal a chadw modiwl, a rhannu'r gost llai hwn rhwng y chwech Awdurdod. | Bydd peidio ymateb yn golygu y bydd Gwynedd yn parhau i dalu ffioedd cynnal a chadw uwch, a hynny am ystod llai o fodiwlau.<br>O beidio ymateb, bydd Gwynedd yn methu datblygu ei gwasanaethau nac ychwaith mantesio ar y cyfle i ail-gynllunio prosesau er mwyn eu gwneud yn fwy effeithiol ac effeithlon. Heb gefnogaeth Gwynedd, ni fydd y cynllun rhesymoli ONE ar draws Awdurdodau'r Gogledd yn debygol o fod yn hyfyw. | 113,000 | Mae'r mater yn gysylltiedig a chynllun cydweithio rhanbarthol - Mae angen ei blethu felly gyda'r achos busnes ar gyfer y cynllun hwnnw. Buddsoddiad ymlaen llaw i sicrhau arbedion yn amodol ar dderbyn cadarnhad o'r buddion yn yr achos busnes. | 113,000 |
| **Cyfanswm Adran Addysg** | | | | | **113,000** | | **113,000** |
| | | | | | | | |
| **Adran Economi a Chymuned** | | | | | | | |
| ECh01 | Cronfa Datblygu Gwirfoddol | Heather Williams | Mae'r Gronfa Datblygu Gwirfoddol yn benodol yn arian tuag at cefnogi prosiectau cyfalaf gan fudiadau a mentrau cymunedol a gwirfoddol, sy'n gweithredu i wasanaethu cymunedau a thrigolion Gwynedd yn unig. | Bod y Cyngor yn gostwng ei fuddsoddiad yn y sector wirfoddol ar gyfnod lle mae'r Cyngor eisoes wedi torri ar ei gymorth i sefydliadau cymunedol. | 140,000 | Argymhellir caniatau'r bid | 140,000 |
| **Cyfanswm Adran Economi a Chymuned** | | | | | **140,000** | | **140,000** |
| | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | | | | | **2,567,750** | | **956,200** |